E-byst o Wlad yr Iâ

Gwlad yr Iâ

Oddi wrth: Iestyn Parry <iparry@postio.com>
Pwnc: Gwlad yr Iâ
Dyddiad: 6 Medi 2012
At: Nerys a Jac Parry <njp3@postio.com>

Wedi cyrraedd Reykjavik ac mae'n ddigon oer i rewi cath yma! Y gwesty'n gyfforddus, modern a chynnes. Ychydig o siom gan nad oes neb yn gwisgo fel esgimos traddodiadol. Hyd yma dydw i ddim wedi gweld neb yn gwisgo parkas, trowsusau, menyg, na bŵts o groen caribou. Ond maen nhw'n edrych fel esgimos gyda chroen tywyll a gwallt du fel y frân. 'Indiaid wedi eu trawsnewid' yr oedden nhw'n arfer cael eu galw ond dydy hynny ddim yn wir. Maen nhw'n perthyn yn nes at Fongoliaid Asia ac yn ystyried eu hunain yn 'Inuit', sef Y Bobol.

Hwyl
Iestyn

Gwlad yr Iâ

Oddi wrth: Iestyn Parry <iparry@postio.com>
Pwnc: Gwlad yr Iâ
Dyddiad: 9 Medi 2012
At: Nerys a Jac Parry <njp3@postio.com>

Peidiwch byth â chwyno am ddyddiau byr y gaeaf eto! Crwydro'r ddinas ddoe ond roedd hi'n nosi mor gynnar. Mae'n iach iawn yma heb ddim llygredd. Wedi'r cyfan ychydig iawn o gerbydau sydd yma er mai tarmac ydy'r ffyrdd. Maen nhw'n cael eu cadw'n glir er bod eira ym mhobman ac mae pawb yn mynd i'w gwaith heb drafferth. Mor wahanol i ni! Mae esgimos y ddinas yn byw mewn tai cerrig, concrit neu bren sy'n cael eu gwresogi â gwres geothermal o'r llosgfynydd.

Hwyl
Iestyn

Gwlad yr Iâ

Oddi wrth: Iestyn Parry <iparry@postio.com>
Pwnc: Gwlad yr Iâ
Dyddiad: 9 Medi 2012
At: Nerys a Jac Parry <njp3@postio.com>

Gadael y ddinas am y wlad heddiw. Wel, gwlad heb goeden na blewyn o laswellt yn unman. Meysydd eira'n well disgrifiad. Mewn snowmobile roedden ni'n teithio. Minnau'n meddwl y byddwn i'n cael ei lordio hi fel Siôn Corn ar sled yn cael ei thynnu gan hysgis! Bues i'n cadw llygad barcud am iglws ond welais i'r un. Yr arweinydd yn dweud mai esgimos teithiol y gogledd oedd yn defnyddio'r rheiny ac mai cartrefi dros dro oedden nhw. Gweld ambell babell o groen caribou a chroen morlo. Mae rhai pethau yn aros felly.

Y tu draw i'r ddinas mae rhai esgimos yn dal i ddibynnu ar famaliaid y môr am fwyd, tanwydd, golau ac olew coginio ond maen nhw wedi rhoi'r gorau i fwyta cig amrwd. Bydden nhw'n gwneud hynny i arbed tanwydd ers talwm.

Hwyl
Iestyn

Gwlad yr Iâ

Oddi wrth: Iestyn Parry <iparry@postio.com>
Pwnc: Gwlad yr Iâ
Dyddiad: 10 Medi 2012
At: Nerys a Jac Parry <njp3@postio.com>

Nôl yn y gwesty ers neithiwr a chysgu fel twrch. Mynd at yr afon sy'n rhedeg trwy'r ddinas bore ma – Ellioaa. Dydy hi byth yn rhewi ac mae hi'n berwi o eogiaid. Gwylio'r pysgotwyr yn llywio eu canŵs croen yn ddeheuig – y kayak - ac yn defnyddio dulliau traddodiadol o bysgota gyda harpŵn a gwaywffyn pysgota yn ogystal â gwialenni modern.

Siopa pnawn ma a phrynu cofroddion. Digon o ddewis o grefftau yma i gynrychioli hen ffordd o fyw yr esgimos – cyllyll, nodwyddau, cribau, ffigyrau ac arfau wedi eu haddurno - i gyd wedi eu cerfio o ifori, asgwrn, copr neu garreg.

Mynd allan heno! Mae Reykjavik yn cael ei hadnabod fel prifddinas bywyd nos y gogledd ac mae'r bariau ar agor tan 6 o'r gloch y bore, felly peidiwch â disgwyl e-bost bore fory! Yr unig anfantais ydy bod cwrw yn andros o ddrud yma ond mae'r esgimos yn dod dros y broblem yna drwy yfed yn eu cartrefi cyn mynd allan! A minnau'n meddwl mai eistedd o amgylch tân yn yr eira yn sipian rhyw ddiod poeth llesol a dim ond eu trwynau'n sbecian allan o'r ffwr fydden nhw! Hanner noeth fydd y rhai ifanc, siŵr o fod, yn union fel pe baen nhw mewn clwb yng Nghaerdydd!

Hwyl
Iestyn